

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2019 i 2020

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2019 i 2020

Cynnwys

Beth yw craffu?	3
Craffu ar Waith	3
Sut mae craffu yn gweithio yn Sir Ddinbych?	4
Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu	4
Ystyried addasrwydd testun ar gyfer craffu	6
Gwaith craffu yn ystod 2019/20	7
Craffu a Blaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor yn ystod 2019/20	7
Pwyllgor Craffu Perfformiad	19
Pwyllgor Craffu Partneriaethau	21
Pwyllgor Craffu Cymunedau	23
Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Lleol Conwy a Sir Ddinbych	25
Grwpiau Gorchwyl a Gorffen	26
Gwaith ychwanegol	28
Adroddiadau Archwilio Cymru	29
Ceisiadau am Graffu gan Breswylwyr	30
Sut gall preswylwyr gymryd rhan yn y broses Graffu?	31
Ffurflen Gais Craffu	33

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2019 i 2020

Beth yw craffu?

Mae Craffu yn rhan allweddol o strwythur gwleidyddol y Cyngor. Mae llawer o benderfyniadau pwysig y Cyngor yn cael eu gwneud gan y Cabinet, sef grŵp o gynghorwyr y mae'r Cyngor Sir wedi rhoi ei bwerau iddynt er mwyn dod i benderfyniadau ynghylch polisïau a gweithdrefnau ar ei ran.

Mae'r term Saesneg 'scrutiny' yn tarddu o'r gair Lladin 'scrutinium/scrutari' sy'n golygu 'chwilio'. Yng nghyd-destun llywodraeth leol, rôl Craffu yw archwilio polisïau a phenderfyniadau ac ymchwilio iddynt i asesu a fyddai'n bosibl eu gwella neu eu cryfhau i ddarparu gwell gwasanaethau i breswylwyr Sir Ddinbych a phobl sy'n ymweld â'r sir. Cyfeirir at y swyddogaeth graffu yn aml fel 'ffrind beirniadol' y Cyngor, a'i nod yw darparu beirniadaeth adeiladol er mwyn ceisio gwell gwasanaethau'n barhaus, sicrhau penderfyniadau gwell a chael gwell canlyniadau.

Ni all pwyllgorau Craffu wneud penderfyniadau, ond maent yn gallu dylanwadu ar wleidyddiaeth, adolygu penderfyniadau a wnaed gan y Cabinet a Swyddogion, gwneud argymhellion, ac archwilio pob math o bynciau sy'n effeithio ar breswylwyr a busnesau lleol a phobl sy'n ymweld â'r sir.

Craffu ar Waith

Dylai Craffu weithio mewn ffordd ddiuedd bob amser. Ni ddylai gwleidyddiaeth bleidiol ddylanwadu arno, dylai ganolbwyntio ar wella bywydau preswylwyr a sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer y sir.

Yn ogystal â'u rôl weithgar i ddatblygu polisïau ac adolygu perfformiad, mae gan Bwyllgorau Craffu gyfrifoldeb i ddal y Cabinet ac eraill sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif am y penderfyniadau maent yn eu gwneud.

Os yw Pwyllgor Craffu yn credu y dylid edrych yn fwy manwl ar fater cyn dod i benderfyniad, gall ofyn am adolygiad o dan y weithdrefn "Galw i Mewn" a fydd yn galluogi Pwyllgorau Craffu i lunio cynigion eraill.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2019 i 2020

Sut mae craffu yn gweithio yn Sir Ddinbych?

Mae craffu yn gweithredu fel 'ffrind beirniadol' i arweinyddiaeth y Cyngor, yn gyrru gwelliannau nid yn unig i wasanaethau a gyflenwir gan y Cyngor ei hun, ond i wasanaethau a gyflenwir mewn partneriaeth gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill yn yr ardal drwy alluogi pryderon y cyhoedd i gael eu clywed.

Mae gwaith craffu'r Cyngor yn cael ei gyflawni gan dri phwyllgor Craffu thematig, trawsbynciol, sy'n cyfarfod bob tua 7 wythnos ac sy'n cynnwys 11 aelod o bob plaid/grŵp gwleidyddol ar y Cyngor.

Y tri phwyllgor yn Sir Ddinbych yw:

- Pwyllgor Craffu Cymunedau
- Pwyllgor Craffu Partneriaethau
- Pwyllgor Craffu Perfformiad

Wrth roi sylw i faterion addysgol mae cynrychiolwyr a benodir gan yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig, ynghyd â chynrychiolwyr a etholir gan riant-lywodraethwyr, hefyd yn gwasanaethu ar bwyllgorau. Wrth ymdrin â materion addysgol mae gan y cynrychiolwyr hyn hawliau pleidleisio llawn. Ar hyn o bryd mae'r holl swyddi seddi riant-lywodraethwyr ar Craffu yn wag. Os ydych yn riant-lywodraethwr yn un o ysgolion cynradd, uwchradd neu arbennig y Cyngor, a byddai gennych ddiddordeb mewn cynrychioli'ch sector ar Bwyllgor Craffu, cysylltwch â ni (ceir manylion yn yr adran 'Sut gall preswylwyr gymryd rhan yn y broses Craffu' tua diwedd yr adroddiad hwn).

Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu

Mae Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y tri phwyllgor craffu yn gwasanaethu ar Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu'r Cyngor ynghyd â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethiant Corfforaethol ac Archwilio a Chadeirydd y Pwyllgor

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2019 i 2020

Gwasanaethau Democrataidd. Mae'r Grŵp yn gweithredu fel grŵp cydlynol ar gyfer gwaith y pwyllgorau. Mae ceisiadau am eitemau i'w hystyried gan bwyllgor craffu, boed y rheini gan gynghorwyr sir, swyddogion y Cyngor, preswylwyr, busnesau neu'r cyhoedd, yn cael eu harchwilio gan y Grŵp hwn i bennu a ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Craffu, neu a fyddent yn elwa ar gael eu hystyried gan fforwm neu grŵp arall. Mae'r siart llif ar y dudalen nesaf yn dangos y meini prawf a'r broses ar gyfer pennu a yw pwnc yn un addas ar gyfer craffu.

Yn ystod 2019/20 cafodd cyfanswm o 21 o geisiadau am eitemau i gael eu craffu eu hystyried gan y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion craffu. O'r 21 cais hwn cafodd:

- 10 eu cyflwyno gan gynghorwyr sir
- 9 gan swyddogion
- 2 gan breswylwyr/y cyhoedd (er bod nifer o'r ceisiadau a gafodd eu cyflwyno gan gynghorwyr sir yn ymateb i bryderon a godwyd gan eu hetholwyr)

Mae'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu yn sicrhau bod rhaglenni gwaith y pwyllgorau craffu yn gytbwys ac nad yw'r pynciau yn cael eu dyblygu. Mae'r Grŵp hefyd yn cefnogi a chryfhau swyddogaeth graffu'r Cyngor drwy nodi arfer gorau a rhoi cymorth i weithredu unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r arferion craffu.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2019 i 2020

Ystyried addasrwydd testun ar gyfer craffu

Cam un: ystyried y cais

Derbyn ffurflen gynnig neu gais ac ystyried yn ofalus y rhesymau dros y cais.

Cam dau: Ydi'r mater dan sylw yn cyd-fynd â'r prawf (PAPER)?

- Budd y cyhoedd – a yw'r mater yn destun pryder i breswylwyr?
- Y gallu i gael effaith – a all y broses Craffu ddylanwadu ar bethau a'u newid?
- Perfformiad – ydy hwn yn faes neu'n wasanaeth sy'n tanberfformio?
- Maint – ydy hwn yn effeithio ar nifer mawr o breswylwyr neu ardal ddaearyddol eang?
- Dyblygu – a oes unrhyw un arall yn edrych ar y mater hwn?

Os nad yw, nid oes angen unrhyw weithredu pellach gan bwyllgor craffu a chyfeirir y cais rywle arall neu gofyn am adroddiad er gwybodaeth?

Os yw:

Cam tri: asesu a chynllunio

- Penderfynu pa ganlyniadau a ddymunir
- Penderfynu beth yw cwmpas a maint y gwaith craffu sydd ei angen a'r dull mwyaf addas o'i gyflawni (h.y. adroddiad pwyllgor, ymchwiliad grŵp gorchwyl a gorffen, neu aelod cyswllt, ac ati)
- Os dewisir y llwybr gorchwyl a gorffen, pennu'r amserlen ar gyfer unrhyw ymchwiliad, pwy fydd yn gysylltiedig, gofynion ymchwil, cyngor arbenigol a'r tystion fydd eu hangen, trefniadau adrodd ac ati.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2019 i 2020

Gwaith craffu yn ystod 2019/20

Fel rhan o'u gwaith yn ystod y flwyddyn 2019/20 mae tri Phwyllgor Craffu'r Cyngor wedi canolbwyntio ar nifer o bynciau gyda'r nod o gefnogi'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol. Y Blaenoriaethau Corfforaethol yw:

Tai: sicrhau bod pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n bodloni eu hanghenion

Cymunedau wedi eu cysylltu: sicrhau bod cymunedau wedi eu cysylltu a bod ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau yn lleol, ar-lein a thrwy gysylltiadau trafndiaeth da

Cymunedau Cydnerth: sicrhau bod y Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i feithrin annibyniaeth a chydnerthedd

Amgylchedd: sicrhau amgylchedd deniadol sydd wedi'i warchod sy'n cefnogi llesiant a ffyniant economaidd; a

Phobl Ifanc: creu sir lle bydd pobl ifanc yn dymuno byw a gweithio a bydd ganddynt y sgiliau i wneud hynny

Trwy fabwysiadu'r dull hwn, amcan Craffu yw gwella gwasanaethau i breswylwyr ac ansawdd eu bywydau bob dydd.

Mae gwasanaethau Cyngor Sir Ddinbych yn cyffwrdd â bywydau holl breswylwyr y sir, yn hen ac ifanc, a dyma pam mae'r pwyllgorau craffu wedi edrych ar berfformiad y Cyngor i gyflenwi gwasanaethau yn ystod y flwyddyn. Yn ogystal â hyn, wrth i fodelau cyflenwi gwasanaethau esblygu i ateb anghenion sy'n newid, mae'r broses Craffu wedi bod yn ystyried ffyrdd newydd o gyflenwi gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.

Craffu a Blaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor yn ystod 2019/20

Isod ac ar y tudalennau canlynol ceir trosolwg o sut mae pwyllgorau craffu'r Cyngor wedi cefnogi gwaith a dyheadau'r awdurdod o gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol yn ystod y flwyddyn.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2019 i 2020

Tai: Sicrhau bod pawb yn cael eu cefnogi i fwy mewn cartrefi sy'n bodloni eu hanghenion

Drwy ei waith dros nifer o flynyddoedd, mae Craffu wedi ymdrechu i gefnogi'r Cyngor i gyflawni'r flaenoriaeth arbennig hon. Yn ystod 2019/20 daeth i ben â'r gwaith a ddechreuodd rai blynyddoedd ynghynt ar fonitro pa mor effeithiol roedd gwaith rheoleiddiol y Cyngor yn sicrhau fod Meysydd Carafannau a Gwyliau ar draws y sir yn cydymffurfio â'n hamodau cynllunio a thrwyddedu. Roedd pryderon wedi cael eu codi nad oedd rhai perchnogion yn cydymffurfio'n llawn â'r amodau oedd ynghlwm â'u caniatadau cynllunio a thrwyddedu ac y gallant fod drwy hynny yn caniatáu i bobl breswyllo mewn carafannau ar eu safleoedd yn barhaol ac yn eu gwneud yn agored, yn enwedig y rhai mwy bregus, i risgiau sylweddol drwy beidio â bodloni eu hanghenion tai yn iawn. Drwy weithio'n effeithiol dros nifer o flynyddoedd gyda pherchnogion a rheolwyr parciau, ffurfiwyd lefel o ymddiriedaeth rhyngddyn nhw a'r Cyngor a arweiniodd at welliant yn y sefyllfa. Gan fod Craffu'n fodlon bellach fod rheoleiddio parciau carafannau a gwyliau yn cael ei reoli'n effeithiol, cytunwyd y bydd monitro pellach yn cael ei wneud gan swyddogion fel rhan o'u trefn arferol.

Yn yr un modd, mae nifer y Tai Amfeddiannaeth (HMOs) yn y sir wedi bod yn broblem hirhoedlog, yn enwedig yn ei ardaloedd mwyaf difreintiedig. Yn ôl yn 2010 cyflwynodd y Cyngor Gynllun Trwyddedu Ychwanegol i HMOs mewn ardaloedd penodol o'r Rhyl. Roedd y cynllun hwn yn cyd-fynd â'r cynllun trwyddedu HMOs gorfodol. Pwrpas y cynllun ychwanegol oedd sicrhau fod nifer fawr o HMOs yn cydymffurfio â gofynion penodol cyn y gallent gael trwydded fel llefydd i fyw. Sicrhodd hyn fod unigolion a theuluoedd yn cael llety diogel a chyfforddus oedd yn cwrdd â'u hanghenion. O ganlyniad i lwyddiant y cynllun hwn yn y Rhyl, cafodd ei ehangu am gyfnod pellach o 5 mlynedd o 2015 ymlaen. Yn 2020 roedd y Cyngor yn awyddus i barhau â'i waith yn y Rhyl, ond yn seiliedig ar ei lwyddiant yno, ei ymestyn i drefi eraill yn y sir, sef Prestatyn, Dinbych a Llangollen. Roedd Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cefnogi'r cynigion ac ymgynghorwyd â Craffu ar ddechrau 2020. Roedd y pwyllgor craffu yn gyffredinol o blaid y mathau o dai oedd i'w cynnwys yn y cynllun diwygiedig ac o'i ymestyn i drefi eraill yn y sir

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2019 i 2020

ac argymhellodd y dylid ymgynghori ar ei gynnwys cyn ei gyflwyno i gael sêl bendith y Cabinet.

Er bod y Cyngor yn ymdrechu i wneud yn siŵr fod pob preswlydd yn byw mewn cartref sy'n cwrdd â'u hanghenion, yn anffodus nid oes gan bawb yn y sir do uwch eu pen. Mae ar y Cyngor ddyletswydd i sicrhau ei fod yn diogelu'r holl bobl sy'n agored i niwed, p'un ai'n ddigartref neu mewn perygl o golli eu cartref. Ymhlith pryderon fod rhai unigolion a theuluoedd yn eu cael eu hunain mewn llety dros dro mewn gwestai neu lety gwely a brecwast, bu Craffu yn archwilio gweithdrefnau'r Cyngor a'i allu i warchod a bodloni anghenion y digartref. Wrth gydnabod y cymhlethdodau sydd ynghlwm â digartrefedd, roedd yn cefnogi penderfyniad y Cyngor i fabwysiadu agwedd gorfforaethol tuag at ddigartrefedd a chynnwys tacio problem digartrefedd yn ei Strategaeth Dai. Bydd Craffu yn parhau i fonitro'r datblygiad a chymeradwyo'r Strategaeth Tai a Digartrefedd yn ystod y flwyddyn sy'n dod.

Mae gwahaniaeth mawr rhwng dyrannu tai i unigolion a theuluoedd a bodloni eu hanghenion mewn gwirionedd, gan sicrhau eu bod yn byw mewn lle y maent yn hapus i'w alw'n gartref. Yn ystod y flwyddyn bu'r Pwyllgor Craffu yn cwrdd â chynrychiolwyr o'r sector Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn Sir Ddinbych i edrych ar effeithiolrwydd proses ymgeisio yr Un Llwybr Mynediad at Dai (SARTH) o ran diwallu anghenion pobl a sicrhau cartref addas iddyn nhw a'u teuluoedd. Nod proses SARTH yw helpu pobl i gael cartref drwy wneud un cais, sy'n cael ei rannu gyda nifer o ddarparwyr tai ar yr un pryd, gan arbed amser a straen i'r ymgeisydd.

Mae cartref yn llawer mwy nag eiddo i fwy ynddo, mae angen i gartref fod yn addas i ffordd o fyw rhywun. Mae dod o hyd i leoliad addas i ddiwallu anghenion y gymuned sipsiwn a theithwyr, heb gael effaith andwyol ar eu bywydau ac ar fywydau preswylwyr eraill yn fater arall mae Craffu wedi bod yn ei archwilio yn y misoedd diwethaf, yn benodol safleoedd posibl i'w cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) drafft i'w datblygu fel safle tramwy. Cynigiwyd nifer o safleoedd i'w cynnwys yn y CDLI drafft ond gofynnodd Craffu am wneud ymgynghoriad â'r gymuned sipsiwn a theithwyr i holi pa mor addas oedd y safleoedd hyn i'w hanghenion cyn bod y Cabinet yn ystyried eu cynnwys yn y CDLI drafft. Gofynnodd

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2019 i 2020

Craffu i'r Cabinet hefyd i ysgrifennu yn y termau cryfaf posibl i Lywodraeth Cymru yn gofyn am eglurder ar pam na allai awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd i ddatblygu nifer cytunedig o safleoedd tramwy yng Ngogledd Cymru yn hytrach nad bod pob cyngor sir yn gorfod darparu un yn eu hardal, gan fod cael chwe safle tramwy yn y rhanbarth yn ymddangos yn anghymesur mewn cymhariaeth â nifer y gwersyllfannau anghyfreithlon oedd yn cael eu gweld bob blwyddyn yn y rhanbarth.

Cymunedau wedi eu cysylltu: sicrhau bod cymunedau wedi eu cysylltu a bod ganddynt fynediad da at nwyddau a gwasanaethau yn lleol, ar-lein a thrwy gysylltiadau trafrnidiaeth da

Mae cadw cymunedau, busnesau a phobl yn gysylltiedig â'i gilydd yn hollbwysig er mwyn cefnogi rhyngweithio cymdeithasol, annog twf economaidd ac adeiladau rhwydweithiau lleol cryf a chydnerth. Mae cymunedau yn gysylltiedig ar wahanol o lefelau gwahanol, drwy gysylltiadau ffyrdd a chludiant, cysylltiadau rhwng amrywiol unigolion, grwpiau a busnesau sy'n byw ac yn gweithredu o fewn y cymunedau, yn ogystal â thrwy gysylltiadau cyfathrebu. Cysylltedd (*connectivity*) yw un o eiriau mawr yr 21ain Ganrif. Felly, mae sicrhau bod llwyfannau digidol effeithiol ar gael yn ogystal â rhwydweithiau ffisegol sy'n addas i'r diben yn ffurfio rhan allweddol o sicrhau fod cymunedau wedi'u cysylltu. Mae aelodau etholedig a phreswylwyr wedi bod yn pryderu ers nifer o flynyddoedd am argaeledd gwasanaethau band eang da, dibynadwy a chyflym ar draws y sir. Ym marn y Cyngor, mae argaeledd band eang cyflym ac effeithiol yn elfen hanfodol i ddod â thwf economaidd a ffyniant i'r ardal a'i phreswylwyr, ac yn offeryn hanfodol i helpu disgyblion a myfyrwyr y sir yn eu hastudiaethau er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd eu llawn botensial. Wrth gydnabod bod ansawdd ac argaeledd band eang cyflym ar draws y sir wedi gwella yn y blynyddoedd diwethaf, teimlai Craffu fod dal angen i'r llywodraeth yn ganolog wneud mwy i sicrhau y gall pob aelwyd a busnes yn y sir gael mynediad at wasanaethau band eang effeithiol os ydynt eu heisiau. Ar hyn o bryd roeddent yn teimlo fod rhai ardaloedd o'r sir, yn bennaf mewn ardaloedd gwledig, yn cael eu gadael ar ôl ac o ganlyniad, fod busnesau o dan anfantais wrth gystadlu ar y farchnad agored, fel yr oedd disgyblion sy'n gweithio tuag at gymwysterau a fydd yn dylanwadu ar eu gobeithion am

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2019 i 2020

yrfa yn y dyfodol. Ysgrifennodd Craffu at Brif Weinidog Cymru a Gweinidogion eraill Llywodraeth Cymru yn amlinellu eu pryderon ac yn gofyn iddynt fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb hwn ar frys gan y dylai argaeledd band eang dibynadwy gael ei ystyried yn hanfod bob dydd yng Nghymru'r 21ain Ganrif, tebyg i gael mynediad at ddŵr a thrydan. Copïwyd y llythyr hefyd i Gomisiynwyr LIC gan y teimlid fod y diffyg parhaus o fand eang dibynadwy i bawb yn tanseilio egwyddorion cydraddoldeb i bawb, a'r nodau a osodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Roedd Craffu yn hynod o falch fod Gwasanaeth Llyfrgell y Sir wedi parhau â'i berfformiad cryf yn erbyn y targedau perfformiad cenedlaethol. Cafodd ei galonogi hefyd, wedi archwilio cyflawniad Strategaeth Llyfrgelloedd Lleol y Gwasanaeth, o weld fod llyfrgelloedd y sir wrth galon eu cymunedau yn helpu i gyflwyno amryw o wasanaethau'r Cyngor a chyhoeddus yr oedd preswylwyr am eu cael yn eu cymunedau eu hunain. Yn y blynyddoedd nesaf, gobeithir y bydd llyfrgelloedd y sir yn gweithio'n agos â'r Gwasanaeth Archifau Ar y Cyd â Chyngor Sir y Fflint i gynnig gwasanaeth archifau cynhwysfawr yn electronig i breswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd. Yn dilyn craffu ar gynnig y gwasanaeth ar y cyd i sicrhau cyllid i adeiladu hwb archifau pwrpasol yn yr Wyddgrug, ac ymchwiliad i'r gwasanaethau a fyddai'n cael eu cynnig mewn llyfrgelloedd a chanolfannau eraill yn y ddwy sir, roedd Craffu yn cefnogi amcanion y cynnig. Yn ystod y flwyddyn sy'n dod bydd Craffu'n parhau i fonitro datblygiad y Gwasanaeth.

Fel y soniwyd, nod y Gwasanaeth Archifau ar y Cyd yw cyflwyno gwasanaethau ardderchog i breswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd. Wedi i dwristiaid ddod i mewn i'r ardal, mae Craffu'n awyddus i'w gweld yn cael eu denu oddi ar y priffyrdd i chwilota ym mhedair cornel y sir a'r llu o atyniadau a gweithgareddau sydd ar gael yn Sir Ddinbych. Gyda hyn mewn golwg, mae wedi gofyn i weithgor o swyddogion ac aelodau ddatblygu strategaeth arwyddbost twristiaeth i'r sir, un a fydd yn ychwanegu at yr arwyddion gwybodaeth i ymwelwyr sydd eisoes ar y priffyrdd, a thrwy gyfres o arwyddion wedi'u dylunio'n dda, yn eu tywys drwy'r sir a'i harlwy i ymwelwyr. Dylai hyn helpu i roi hwb i economi'r sir. Yn y misoedd nesaf, bydd Craffu'n cadw llygad ar ddatblygiad y strategaeth.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2019 i 2020

Cymunedau Cydnerth: sicrhau bod y Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i feithrin annibyniaeth a chydnerthedd

Yn sgil toriadau i gyllid awdurdodau lleol, mae'r Cyngor yn y blynyddoedd diwethaf wedi gorfod addasu a llunio ffyrdd gwahanol o gyflwyno'i wasanaethau. Nod y dull hwn yw adeiladu cydnerthedd mewn cymunedau lleol i gefnogi eu preswylwyr, gyda'r bwriad eu bod ond yn dibynnu ar wasanaethau cyhoeddus am waith ymyrryd mawr ar adeg o argyfwng. Profwyd cydnerthedd ein cymunedau lleol a daeth yn amlwg yn ystod argyfwng diweddar pandemig y Coronafeirws. Bydd y gwersi a ddysgwyd o'r modd yr ymdriniwyd â'r argyfwng hwnnw yn sicr o gael eu trafod gan Graffu yn y misoedd a'r blynyddoedd nesaf, ond yn ystod 2019/20 bu'r pwyllgorau craffu yn archwilio agweddau gwahanol o ymdrechion y Cyngor i adeiladu cydnerthedd cymunedau i ddelio â heriau dydd i ddydd a rhai yn y tymor hirach.

Fel rhan o'r gwaith hwn mae wedi parhau i gyfarfod yn rheolaidd â chynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) er mwyn sicrhau fod gwaith ar y cyd a chydweithredol rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor yn cynnig gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cydgysylltiedig, a bod y gwasanaethau a roddir gan y ddau sefydliad yn ategu ac yn cefnogi ymdrechion y naill a'r llall i wella iechyd a lles preswylwyr. Mae Craffu wedi parhau i fonitro cynnydd y Bwrdd Iechyd o ran cyflawni prosiectau cyfalaf mawr yn y sir, megis Ysbyty Cymunedol newydd Sir Ddinbych sydd i'w adeiladu yn y Rhyl a chynlluniau'r Bwrdd yn y dyfodol ar gyfer Inffymari Dinbych a gwasanaethau cymunedol eraill yn y sir, gan ei fod yn ystyried y prosiectau hyn yn ddatblygiadau allweddol i gyflawni gwasanaethau ar y cyd. Mae hefyd wedi edrych ar gynlluniau'r Bwrdd Iechyd i wella cyflawniad y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a'i gynigion ar gyfer Gwasanaethau Niwroddatblygu yn Sir Ddinbych.

Mae diogelwch cymunedol a diogelu preswylwyr sy'n agored i niwed yn rhan o gyfrifoldebau statudol y Cyngor, o ganlyniad mae gan Graffu ran mewn archwilio sut mae'r awdurdod yn cyflawni'r swyddogaethau hyn. I'r diben hwn, yn ystod y flwyddyn, bu'n archwilio perfformiad a blaenoriaethau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy a Sir Ddinbych Ar y Cyd wrth ddiogelu oedolion bregus a chyflwyno gwasanaethau i'r

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2019 i 2020

preswylwyr hynny a oedd wedi mynd yn ddigartref, neu mewn perygl o hynny. Edrychodd hefyd ar y cynigion i newid dull y sir o weinyddu 'Parthau Dim Galw Diwahoddiad' yn y sir. Fel rhan o'i waith o archwilio gwaith y gwasanaethau wrth esblygu a datblygu i fodloni anghenion y dyfodol a chyflwyno'r math o wasanaethau y mae preswylwyr yn dymuno'u cael, gwnaeth Craffu argymhellion am newidiadau i gyflwyno gwasanaethau cyfleoedd gwaith i bobl ag anableddau dysgu. Mae wedi archwilio cynigion i sicrhau dyfodol Gofal Iechyd Cefndy, effeithiolrwydd y gwasanaethau sydd bellach yn cael eu cyflwyno o Hafan Deg yn y Rhyl, ynghyd â pherfformiad cyffredinol y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol a'r meysydd y nodwyd sydd angen eu gwella yn y dyfodol.

Mae toriadau i gyllid yn y blynyddoedd diwethaf wedi gadael y Cyngor gyda llai o staff i weithio mewn gwasanaethau heb fod yn rhai rheng flaen. Roedd y gwaith a wnaed gan y gweithwyr hyn yn y gorffennol yn anuniongyrchol yn gwella ansawdd bywyd i nifer o drigolion a busnesau. Gwaith cynllunio a thrwyddedu yw un maes o'r fath. Er mwyn gwneud iawn am golli staff, bu angen dyfeisio dulliau arloesol o weithio gyda phartneriaid yn y sector preifat a chyhoeddus i wneud yn siŵr nad oedd amodau cynllunio a thrwyddedu yn cael eu herio. I'r diben hwnnw lluniwyd Siarter Cydymffurfiaeth Cynllunio lle gallai Cyngorau Dinas, Tref a Chymuned helpu'r cyngor sir i oruchwylio a rheoli materion o ddiffyg cydymffurfiaeth yn eu hardal leol. Amcan y Siarter hon yw hwyluso ymyrraeth gynnar mewn materion diffyg cydymffurfiaeth er mwyn lleihau'r angen, ble bynnag y bo modd, i ddwysau unrhyw dorri amodau i lefel gorfodi ffurfiol. Mabwysiadwyd agwedd debyg yn barod gyda rheoleiddio parciau gwyliau a charafannau, ble'r oedd gweithredwyr a rheolwyr parciau yn gweithio gyda'r Cyngor i sicrhau eu bod i gyd yn gweithredu o fewn yr amodau a roddwyd iddynt. Cafodd Craffu ran eang mewn datblygu'r dulliau hyn, a sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol.

Ardal Gwella Busnes (AGB neu *BID*) yw cytundeb ffurfiol, a sefydlwyd drwy bleidlais busnesau cymwys, lle mae busnesau yn dod ynghyd i benderfynu pa welliannau ychwanegol yr hoffent eu gwneud i'r ardal lle maent yn gweithredu eu busnesau er mwyn gwella nifer ymwelwyr ac adeiladu gwytnwch. Os yw AGB yn cael ei sefydlu, mae'r busnesau yn yr ardal honno yn penderfynu sut maen nhw'n mynd i reoli a chyflawni

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2019 i 2020

unrhyw welliannau a faint y maent yn barod i dalu i wneud i hyn ddigwydd. Yn dilyn cais gan berson busnes lleol, bu Craffu'n archwilio'r broses oedd angen ei dilyn i sefydlu AGB, gyda sylw arbennig ar y broses a ddilynwyd mewn ardal o'r Rhyl lle sefydlwyd AGB rai blynyddoedd yn ôl a'r gwersi a ddysgwyd o'r broses honno. Daeth i'r casgliad y dylai ceisiadau am bleidlais AGB gael eu hannog a'u cefnogi yn gyffredinol. Awgrymodd Craffu y dylid annog y rheiny â diddordeb i gysylltu â Bwrdd AGB y Rhyl i ofyn am gyngor ac arweiniad ynghylch sut i gyfathrebu'n effeithiol â'r gymuned fusnes leol, sut i ymgysylltu â nhw yn y broses o sefydlu Ardal Gwella Busnes, a ffyrdd o gyfleu iddynt bwysigrwydd defnyddio'u pleidleisiau.

Amgylchedd: sicrhau amgylchedd deniadol sydd wedi'i warchod sy'n cefnogi llesiant a ffyniant economaidd

Sir wledig yw Sir Ddinbych yn bennaf sy'n meddu ar gyfoeth o atyniadau amrywiol i ymwelwyr, o lefydd glan môr i drefi marchnad hanesyddol. O amgylch yr ardaloedd mwy trefol hyn mae ardaloedd helaeth o gefn gwlad agored, sy'n cael eu cynnal yn bennaf gan amaethyddiaeth, gyda masnach ymwelwyr gwledig sy'n tyfu. Mae gwarchod yr amgylchedd ledled y sir yn allweddol nid yn unig i sicrhau ffyniant economaidd y sir ond hefyd mae'n helpu i gynnal a gwella lles trigolion yr ardal. Daeth pwysigrwydd mannau agored a llwybrau cerdded fel ffordd o gefnogi iechyd a lles yn amlwg iawn yn ystod y pandemig Coronafeirws diweddar.

Yn ystod y flwyddyn cyfarfu Craffu â chynrychiolwyr o Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru a Gwasanaeth Priffyrdd y Cyngor i archwilio eu cynnal a chadw lleiniau glas ochr y ffordd a'u polisïau defnyddio plaladdwyr. Pwrpas cyfarfod â nhw ar y cyd oedd sicrhau fod polisïau'r ddau gorff yn cefnogi ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau ac amcanion amgylcheddol y naill a'r llall.

Yn ystod 2019/20 cyhoeddodd y Pwyllgor Craffu Cymunedau ei ganfyddiadau yn dilyn yr ymchwiliad i'r tân ar Fynydd Llantysilio yn haf 2018 a'i effaith ar yr economi a'r

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2019 i 2020

amgylchedd lleol. Bydd y ddolen isod yn mynd â chi at adroddiad llawn y Pwyllgor, yn cynnwys y casgliadau a wnaed a'r argymhellion cysylltiedig:

[Tudalen Pwyllgorau Craffu Cyngor Sir Ddinbych ar y wê](#)

Amcan y Pwyllgor wrth gynnal yr adolygiad oedd gweld pa wersi y gellid eu dysgu o'r ymateb i'r tân a'i reoli a pha gamau y dylid eu cymryd i osgoi neu leihau'r risg o danau gwyllt difrifol tebyg yn digwydd yn y dyfodol. Difrododd y tân fioamrywiaeth y mynydd yn ddrwg a chafodd effaith fawr ar y diwydiant amaethyddol lleol, preswylwyr a busnesau. Gan gydnabod maint ei effaith, ffurfiodd y Pwyllgor gyfres o argymhellion gyda golwg ar liniaru'r perygl o weld digwyddiadau tebyg yn y dyfodol. Roedd nifer o'r argymhellion yn dibynnu ar barodrydd partneriaid i weithio gyda'i gilydd i'w cyflawni. Un argymhelliad arbennig oedd sefydlu swydd Swyddog Rheoli'r Ucheldir/Rhostir. Roedd Craffu'n credu'n bendant y byddai'r swyddog hwn mewn sefyllfa i arwain a chydweithio â'r amrywiol asiantaethau, tiffeddianwyr, ffermwyr, porwyr a'r cymunedau lleol ar weithgareddau a chynlluniau rheoli tir, a fyddai'n helpu i gefnogi datblygiad y cynefin, ecosystemau ac economïau ardaloedd yr ucheldir a gostwng y risg o danau gwyllt. Er gwaetha'r oedi a achoswyd gan argyfwng COVID-19, mae'n bleser gwybod fod gwaith yn mynd rhagddo bellach i benodi unigolyn i'r swydd hon, a bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnig ariannu'r swydd yn rhannol am gyfnod o dair blynedd o leiaf. Gan fod yr amgylchedd yn effeithio ar holl drigolion, busnesau a sefydliadau'r ardal, roedd Craffu'n falch o gael y cyfle i gyfrannu at ymgynghoriad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar ddatblygu ei Strategaeth Amgylcheddol.

Yn y blynyddoedd diwethaf mae pryderon wedi dwysau ar draws y byd am effaith deunyddiau plastig yn cael eu taflu ar yr amgylchedd, a sut mae'r plastig hwn yn gorffen ym moroedd y byd. Mae lleihau'r defnydd o blastigau yn flaenoriaeth erbyn hyn i nifer o wledydd ac i lywodraethau ar bob lefel. Drwy ei Grŵp Gorchwyl a Gorffen Defnydd o Blastig mae Cyngor Sir Ddinbych hefyd wedi bod yn mynd i'r afael â'r pwnc hwn ac yn ceisio lleihau ei ddefnydd o blastig mewn meysydd nad ydynt yn cael sylw ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru na Llywodraeth y DU. Yn y lle cyntaf penderfynodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ymchwilio i ffyrdd y gallai'r Cyngor ei hun ostwng ei ddefnydd o blastig

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2019 i 2020

yn ei swyddfeydd ac argymhellodd na ddylai'r Awdurdod brynu mwy o waledi plastig i gadw dogfennau, cwpanau plastig, llwyau, troellwyr llaeth ayb. Aeth ymhellach a phenderfynu y dylid cael gwared ar bob peiriant gwerthu bwyd a diod. Cymeradwywyd y camau hyn gan y Cyngor Sir ar ddechrau 2020 er mwyn eu gweithredu yng ngwanwyn 2020. Rhoddwyd caniatâd i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen barhau â'i waith am 12 mis arall i ymchwilio i ffyrdd o leihau'r defnydd o blastig mewn arlwyo a chaffael prydu ysgol. Oherwydd bod y Cyngor wedi gorfod arallgyfeirio adnoddau i ymateb i bandemig y Coronafeirws a gorfod cydymffurfio â chanllawiau llym o safbwynt iechyd, diogelwch a hyllendid, ni fydd gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen mewn perthynas ag arlwyo a chaffael ysgol yn gallu symud ymlaen mor gyflym â'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol.

Bwriedir newid dull y Cyngor o ddelio â'i wastraff cartref ailgylchadwy o fewn y blynyddoedd nesaf. Fel rhan o'r gwaith i baratoi ar gyfer y newidiadau i'r gwasanaeth, mae Craffu wedi cymryd rhan amlwg mewn archwilio cynigion ar gyfer y model gwastraff ac ailgylchu newydd, a fydd yn gweld y Cyngor yn ehangu ei ystod o wasanaethau casglu gwastraff ac ailgylchu. Edrychwyd hefyd ar gynigion yn gysylltiedig â datblygu depo newydd i ddelio â'r gwastraff ynghyd â'r strategaeth cyfathrebu â phreswylwyr am y newidiadau sydd o'u blaenau.

Pobl ifanc: creu sir lle bydd pobl ifanc yn dymuno byw a gweithio a bydd ganddynt y sgiliau i wneud hynny

Pobl ifanc yw dyfodol Sir Ddinbych felly mae sicrhau eu bod yn cael y math iawn o addysg a chyfleoedd hyfforddi o safon i gyflawni eu llawn botensial wedi bod yn rhan allweddol unwaith eto o waith Craffu yn ystod y flwyddyn. Fel mewn blynyddoedd blaenorol bu Craffu'n edrych ar berfformiad disgyblion mewn arholiadau allanol ac asesiadau athrawon. Er ei bod yn anodd iawn eleni cymharu cyrhaeddiad disgyblion Sir Ddinbych â chyfoedion mewn ardaloedd awdurdod addysg lleol eraill gan nad yw LIC bellach yn cyhoeddi rhestr gynhwysfawr o ddata y gall y Gwasanaeth Addysg ei defnyddio i gymharu cyrhaeddiad disgyblion â'r rheiny mewn rhannau eraill o Gymru. Serch hynny, roedd Craffu yn fodlon fod Gwasanaeth Addysg y Cyngor a'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol, GwE, yn gallu adnabod y tueddiadau oedd yn dod i'r amlwg ac angen sylw ym mhob un o gyfnodau

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2019 i 2020

allweddol addysg. Mae ysgolion effeithiol yn dibynnu ar arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol. Roedd Craffu eisiau sicrhad fod cyrff llywodraethu ysgolion yn y sir yn cyflawni eu dyletswyddau i lenwi seddi gwag ar y cyrff llywodraethu ac yn cydymffurfio â'r disgwyliadau statudol o ran polisiau, cyllid a gweithdrefnau. Yn dilyn archwilio effeithiolrwydd cyrff llywodraethu ysgolion, roedd Craffu'n cydnabod mai dim ond dylanwadu ar gyrff llywodraethu a'u harwain y gall yr awdurdod lleol ei wneud, ac yn y pen draw fod y cyfrifoldebau'n gorwedd gyda'r cyrff llywodraethu eu hunain. Fodd bynnag, roedd yn argymhell y dylid cymryd nifer o gamau er mwyn cryfhau cyrff llywodraethu ysgolion ar draws y sir i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion gorfodol ac yn cefnogi eu hysgolion a'r disgyblion i gyflawni eu llawn botensial.

Mae mwy a mwy o addysg yn yr 21ain Ganrif yn cael ei chyflwyno drwy dechnoleg ar-lein. Er bod gan ysgolion y sir fynediad at y dechnoleg briodol a chysylltiadau band eang effeithiol i gyflwyno pecynnau addysg, mae rhai disgyblion o dan anfantais wrth wneud astudiaethau estynedig, ymchwil neu waith prosiect yn eu cartref o ganlyniad i gysylltiadau band eang gwael, yn enwedig yn rhai o ardaloedd mwy gwledig y sir. Roedd Craffu'n teimlo'n gryf fod hwn yn fater o anghydraddoldeb a oedd â'r posibilrwydd o roi disgyblion mewn ardaloedd gwledig o dan anfantais a ddim yn gallu gwireddu eu potensial addysgiadol llawn. Tynnwyd sylw at yr anghyfartaledd hwn mewn llythyr gan Graffu i Lywodraeth Cymru ac i'r Comisiynwyr Plant a Chenedlaethau'r Dyfodol.

Yn sgil pwysau cynyddol ar y gyllideb, bu'n rhaid i'r Cyngor ystyried a oedd ei Bolisi Trafnidiaeth i Ddysgwyr ôl-16 yn cynrychioli defnydd effeithiol o arian y trethdalwyr ar wasanaeth nad oedd yn statudol. Gan fod hwn yn faes cymhleth, sefydlodd Craffu weithgor i ymchwilio i wahanol agweddau trafndiaeth i addysg ôl-16 ac i benderfynu a ellid tynnu unrhyw elfennau o'r gwasanaeth presennol yn ôl. Wrth i'r gweithgor ddechrau ar ei waith, cyhoeddodd LIC adolygiad cenedlaethol o gludiant i addysg ôl-16, felly argymhellodd y gweithgor na ddylid gwneud newidiadau i'r ddarpariaeth bresennol hyd nes bod canlyniad adolygiad LIC yn cael ei gyhoeddi. Pwysleisiodd Craffu hefyd y dylai unrhyw ystyriaeth o'r mater hwn yn y dyfodol sylweddoli fod addysg ôl-16 yn fuddsoddiad yn nyfodol myfyrwyr y sir a ffyniant yr ardal yn y dyfodol.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2019 i 2020

Ar y tudalennau canlynol ceir trosolwg byr o'r gwaith a gyflawnwyd gan bob pwyllgor yn ystod y flwyddyn.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2019 i 2020

Pwyllgor Craffu Perfformiad



Cyng. Huw Ll Jones (**Cadeirydd**)



Cyng. Hugh Irving (**Is-gadeirydd**)

Ers dechrau tymor y Cyngor hwn yn 2017, Cadeirydd y pwyllgor hwn oedd y Cynghorydd Huw Jones. Unigolyn gwirioneddol drugarog, a chadeirydd teg a oedd yn sicrhau fod pob barn yn cael ei chlywed ym mhob trafodaeth. Gyda thristwch mawr y clywodd aelodau'r Pwyllgor am ei farwolaeth ar ddechrau 2020. Yn ogystal â bod yn Gadeirydd y Pwyllgor, roedd hefyd yn Gadeirydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a oedd yn cynllunio ffyrdd cynaliadwy o gyflwyno gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion yn y dyfodol. Fel cyn aelod o'r Cabinet, a chyn hynny Is-Gadeirydd Craffu, roedd gan Huw gyfoeth o brofiad o bob agwedd o wneud penderfyniadau a daeth â'r profiad hwn gydag ef i'r Pwyllgor a helpodd i sicrhau fod yr argymhellion a'r penderfyniadau i gyd yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Bydd ei etifeddiaeth yn aros, ond byddwn yn colli ei frwdfrydedd, ei angerdd a'i ddoethineb yn fawr.

Roedd gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ran bwysig i'w chwarae mewn gwneud yn siŵr fod y Cyngor yn cyflwyno gwasanaethau o safon i'r trigolion ac wrth gefnogi'r Cyngor i wireddu ei uchelgais o gyflawni'r blaenoriaethau corfforaethol a osodwyd yn y Cynllun Corfforaethol 2017-22. Bydd ei fonitro rheolaidd o gynnydd y Cyngor o ran cyflawni'r blaenoriaethau corfforaethol yn sicrhau y bydd dyhead y cyngor o wireddu ei Gynllun Corfforaethol yn cael ei gyflawni. Mae hyn, ochr yn ochr â'i waith ar fonitro fod gwasanaethau yn cydymffurfio â pholisi cwynion y Cyngor, sy'n ceisio sicrhau fod unrhyw

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2019 i 2020

gwynion yn cael eu trin yn briodol ac ar amser, yn helpu'r Cyngor i gyflwyno gwasanethau o'r radd flaenaf i'w breswylwyr.

Yn y blynyddoedd diwethaf, bu disgwyl i awdurdodau lleol addasu'r ffordd y maen nhw'n cyflenwi gwasanaethau i fodloni gofynion yr 21ain Ganrif ac i gwrdd â disgwyliadau gwahanol y trigolion i gyd, hen ac ifanc fel ei gilydd. Gyda golwg ar ymateb i'r heriau hyn, mae'r Pwyllgor hwn wedi archwilio canfyddiadau ac argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gofal Cymdeithasol Mewnol i Oedolion, a Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Defnydd o Blastig. O ganlyniad mae cynlluniau ar y gweill a fydd yn gweld gwasanaethau cyfleoedd gwaith i bobl ag anableddau dysgu yn cael eu cyflwyno mewn ffordd fwy boddhaus a chynaliadwy i'r dyfodol, a bydd y Cyngor yn anelu at leihau ei ddefnydd o blastigau untro drwy ymgorffori'r amcan hwn ym mlaenoriaeth Amgylchedd ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2017-22.

Effeithiodd pandemig y Coronafeirws a'r cyfnod clo cenedlaethol ar fusnes y Pwyllgor tua diwedd blwyddyn y Cyngor, yn yr un ffordd ag a effeithiodd ar fywydau bob dydd pawb. Fel pob un o Bwyllgorau'r Cyngor, bydd y Pwyllgor Craffu Perfformiad yn ailgydio yn ei waith cyn gynted ag y mae'n ddiogel i wneud hynny yn y flwyddyn Gyngor newydd.

Bydd y ddolen hon yn mynd â chi at [wybodaeth am y Pwyllgor, ei agendâu a'i adroddiadau ar wefan y Cyngor](#):

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2019 i 2020

Pwyllgor Craffu Partneriaethau



Cyng. Jeanette Chamberlain-Jones (**Cadeirydd**)

Cyng. Emrys Wynne (**Is-Gadeirydd**)

Cylch gorchwyl y Pwyllgor hwn yw archwilio effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor naill ai mewn cydweithrediad, neu mewn partneriaeth, â sefydliadau eraill y sector cyhoeddus i fodloni anghenion preswylwyr. Bu craffu ar wasanaethau'r Bwrdd Iechyd i breswylwyr, a'r modelau a gynigir ar gyfer cyflwyno gwasanaethau gofal iechyd i breswylwyr lleol yn y dyfodol, yn nodwedd allweddol o waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn, yn ogystal ar archwilio pa mor effeithiol yw'r rhyngwynebau sy'n bodoli rhwng y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd ar gyfer cyflenwi gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig.

Mae argaeledd tai addas o safon wedi bod yn nodwedd o raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ar ffurf cynigion i ymestyn y cynllun trwyddedu i Dai Amlfeddiannaeth (HMOs) i ardaloedd eraill o Sir Ddinbych ac effeithiolrwydd gwaith yr Un Llwybr Mynediad i Dai (SARTH) gyd landlordiaid cymdeithasol cofrestredig o ran diwallu anghenion preswylwyr am dai o ansawdd. Fel Pwyllgor Craffu dynodedig Trosedd ac Anhrefn, mae diogelwch cymunedol yn nodwedd allweddol o waith y Pwyllgor. Fel rhan o'i ddyletswydd i gyflawni'r rôl hon bu'n craffu ar berfformiad y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol wrth gyflawni ei blaenoriaethau yn 2018/19 ac yn archwilio ei blaenoriaethau ar gyfer 2019/20. Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor ar gynigion i fabwysiadu dull gwahanol o weinyddu a chyflwyno 'Parthau Dim Galw Diwahoddiad' yn y sir.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2019 i 2020

Ar sail ranbarthol, bu'r Pwyllgor yn cymryd rhan ar ran y Cyngor yn ymgynghoriad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar ei Strategaeth Amgylcheddol.

Bu hefyd yn archwilio Cynllun Cyflenwi Dyletswydd Bioamrywiaeth y Cyngor a arweiniodd ato'n gwahodd cynrychiolwyr o Wasanaeth Priffyrdd y Cyngor ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru i gyfarfod i drafod torri lleiniau glas ymyl ffordd a'u polisïau defnyddio plaladdwyr i wneud yn siŵr eu bod yn cefnogi nodau'r Cyngor a'i flaenoriaeth gorfforaethol o safbwynt yr amgylchedd.

Bydd y ddolen hon yn mynd â chi at [wybodaeth am y Pwyllgor, ei agendâu a'i adroddiadau ar wefan y Cyngor:](#)

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2019 i 2020

Pwyllgor Craffu Cymunedau



Cyng. Huw Williams (**Cadeirydd**)



Cyng. Graham Timms (**Is-Gadeirydd**)

Rôl y Pwyllgor hwn yw archwilio materion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar gymunedau lleol a bywydau dyddiol y preswylwyr. Gall y rhain fod yn faterion sydd o dan reolaeth uniongyrchol y Cyngor neu agweddau o fywyd dyddiol y gall y Cyngor ddylanwadu arnynt.

Yn ystod 2019/20 bu'r Pwyllgor yn canolbwyntio rhywfaint o'i waith ar sicrhau eu bod yn archwilio'r arferion rheoleiddio a ddefnyddir gan y Cyngor i ymchwilio a delio â materion sy'n aml yn achosi pryder i breswylwyr neu'n effeithio ar eu hansawdd bywyd h.y. y Siarter drafft rhwng y Cyngor Sir a chymunedau dinas, tref a chymuned o safbwynt Cydymffurfiaeth Cynllunio, effeithiolrwydd gweithdrefnau rheoli Parciau Gwyliau a Charafannau, a chynllun gweithredu'r Cyngor ar gyfer rheoli'r niwsans a achosir gan wylanod ar draws y sir.

Yn dilyn cyhoeddi ei ganfyddiadau ar Ddân Mynydd Llantysilio yn 2018 ac effaith hwnnw ar yr ardal, parhaodd y Pwyllgor â'i waith o fonitro bod yr argymhellion a wnaed yn dilyn yr ymchwiliad yn cael eu gweithredu.

Yn dra ymwybodol o'r rôl bwysig sydd gan fusnesau bach a gwledig yn y sir ar yr economi leol, bu'r Pwyllgor yn archwilio cynigion i ddatblygu strategaeth arwyddbyst twristiaeth a fydd yn ceisio denu ymwelwyr oddi ar y priffyrdd i bob cornel o'r sir a rhoi cynnig ar yr hyn sydd gan Sir Ddinbych i'w chynnig. Ochr yn ochr â'r strategaeth hon mae cynllun rheoli Meysydd Parcio'r Cyngor sy'n ceisio moderneiddio'r meysydd parcio sydd ym

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2019 i 2020

mherchnogaeth y sir a'u datblygu'n hybiau pwysig i gefnogi busnesau lleol a bod yn byrth i ymwelwyr â'r ardal.

Roedd argaeledd cysylltiadau band eang dibynadwy i'r preswylwyr i gyd yn nodwedd arall o waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn a arweiniodd at y Pwyllgor yn ysgrifennu at Weinidogion Llywodraeth Cymru (LIC) a nifer o Gomisiynwyr yn tynnu sylw at yr anghydraddoldeb a'r anfanteision yr oedd preswylwyr mewn nifer o ardaloedd gwledig yn eu hwynebu wrth geisio byw eu bywydau heb gysylltiadau band eang effeithiol. Ym marn y Pwyllgor, dylid ystyried cysylltiad band eang effeithiol yng Nghymru'r 21ain Ganrif yn gyfleustod sylfaenol fel trydan neu ddŵr a dyma sail gohebiaeth y Pwyllgor â Gweinidogion a Chomisiynwyr LIC. Roeddem yn falch iawn felly i glywed y farn hon yn cael ei hadleisio gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ym mis Mehefin 2020 wrth gyfeirio at brofiadau pobl o geisio parhau â'u bywydau bob dydd a'u busnesau tra'n delio â'r cyfyngiadau oedd arnynt fel rhan o'r ymateb cenedlaethol i bandemig COVID-19.

Bydd y ddolen hon yn mynd â chi at [wybodaeth am y Pwyllgor, ei agendâu a'i adroddiadau ar wefan y Cyngor](#):

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2019 i 2020

Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Lleol Conwy a Sir Ddinbych

Cyfeiriwyd yn adroddiad y llynedd at benderfyniad Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i sefydlu Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i fodloni eu hymrwymiad statudol i graffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Wrth sefydlu'r Cyd-bwyllgor hwn cytunodd y ddau gyngor y byddai'n cynnwys 16 aelod, 8 o bob Cyngor, gan adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol eu hawdurdodau. Er i'r Cyd-bwyllgor gyfarfod yn ystod y flwyddyn i gytuno ar raglen waith, bu'n rhaid gohirio neu ganslo'r cyfarfodydd dilynol am wahanol resymau, yn cynnwys argyfwng COVID-19. Rhagwelir y bydd y Pwyllgor mewn sefyllfa i ailgydio yn ei waith yn ystod hydref 2020.



Cyng. Brian Cossey (**Cadeirydd**)



Cyng. Graham Timms (**Is-Gadeirydd**)

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2019 i 2020

Aelodaeth

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

- Cyng. Geoffrey David Corry
- Cyng. Brian Cossey (Cadeirydd)
- Cyng. Chris Hughes
- Cyng. Ifor Lloyd
- Cyng. Elizabeth Roberts
- Cyng. Harry Saville
- Cyng Nigel Smith
- Cyng. Joan Vaughan

Cyngor Sir Ddinbych

- Cyng. Jeanette Chamberlain-Jones
- Cyng. Rachel Flynn
- Cyng. Hugh Irving
- Cyng. Melvyn Mile
- Cyng. Arwel Roberts
- Cyng. Peter Scott
- Cyng. Graham Timms (Is-gadeirydd)
- Cyng. David G Williams

Bydd y ddolen ganlynol yn mynd â chi at [wybodaeth am y Pwyllgor, ei agendâu a'i adroddiadau ar wefan y Cyngor](#):

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2019 i 2020

Grwpiau Gorchwyl a Gorffen

Yn ystod 2019/20 mae'r Pwyllgorau Craffu wedi parhau i ddefnyddio'r Grwpiau Gorchwyl a Gorffen i gyflawni'r gwaith manwl o ddatblygu polisïau ar eu rhan. Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen sefydlwyd beth amser yn ôl i archwilio modelau cyflenwi ar gyfer **Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion** yn y dyfodol, wedi parhau â'r gwaith o geisio dod o hyd i atebion cyflenwi hirdymor, cynaliadwy i wahanol agweddau o wasanaethau gofal cymdeithasol oedolion a fydd yn darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol o ansawdd i oedolion sydd yn ysgogol, cymhellol a gwerth chweil yn unol â gweledigaeth LIC am wasanaethau gofal oedolion yn y dyfodol. Yn ystod 2019/20 ffurfiodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen hwn argymhellion ar ffyrdd posibl o gyflenwi gwasanaethau cyfleoedd gwaith cynaliadwy ac ysgogol i bobl ag anableddau dysgu yn y dyfodol.

Mae pryderon am y difrod a achosir i'r amgylchedd gan y **Defnydd o Blastig**, yn arbennig deunydd plastig untro a'r dulliau a ddefnyddir i'w waredu, wedi ennill momentwm dros y byd yn y blynyddoedd diwethaf. Yn ystod 2019/20 parhaodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen hwn â'i waith a ffurfiodd argymhellion ynghylch lleihau'r defnydd o blastig yn swyddfeydd y Cyngor ei hun. Cymeradwyodd y Cyngor Sir argymhellion y grŵp ac o ganlyniad, ni fydd cwpanau diod taflu i ffwrdd, troellwyr ayb yn cael eu defnyddio yn y swyddfeydd ac ni fydd y Cyngor yn prynu mwy o waledi plastig i ddal dogfennau. Cytunodd y Cyngor Sir hefyd i gais y Grŵp Gorchwyl a Gorffen iddo gael caniatâd i barhau â'i waith am ddeuddeg mis arall gan ei fod yn dymuno archwilio sut i leihau'r defnydd o blastig untro yng ngwasanaethau arlwy ysgolion y Cyngor ac wrth i'r Cyngor gaffael nwyddau. Fel roedd y gwaith hwn ar fin dechrau, daeth argyfwng COVID-19 ac aeth y wlad i mewn i gyfnod clo. O ganlyniad, nid yw'r agwedd hon o waith y Grŵp wedi dechrau eto.

Fel yr adroddwyd y llynedd, sefydlodd y Pwyllgor Craffu Cymunedau weithgor yn cynnwys aelodau etholedig ac aelodau a swyddogion addysg cyfetholedig o Adran Addysg y Cyngor, yr Adran Gludiant a gwasanaethau cysylltiedig eraill i ystyried **Polisi Cludiant Dysgwyr Sir Ddinbych**. Roedd y Gweithgor hwn yn canolbwyntio'n benodol ar gael eglurder ynghylch y gyllideb flynyddol ar gyfer cludo dysgwyr a'r gost o gludo

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2019 i 2020

disgyblion/myfyrwyr sy'n derbyn addysg anstatudol. Gofynnwyd iddo hefyd asesu effaith a risgiau posibl dileu cludiant am ddim i ddysgwyr sy'n derbyn addysg anstatudol. Wrth i'r gweithgor ddechrau ar ei waith, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adolygiad cenedlaethol o gludiant i addysg ôl-16. Argymhellodd y gweithgor na ddylid gwneud newidiadau i'r ddarpariaeth bresennol hyd nes bod canlyniad adolygiad LIC yn cael ei gyhoeddi. Pwysleisiodd hefyd y dylai unrhyw ystyriaeth o'r agwedd arbennig hon ar gludiant ysgol sylweddoli fod addysg ôl-16 yn fuddsoddiad yn nyfodol myfyrwyr y sir a ffyniant yr ardal yn y dyfodol.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2019 i 2020

Gwaith ychwanegol

Yn unol â'r arfer dros y blynyddoedd diwethaf, mae aelodau'r Pwyllgor Craffu wedi parhau â'u swyddogaethau craffu y tu hwnt i faes ffurfiol y cyfarfodydd pwyllgor. Maent wedi cynrychioli eu pwyllgorau ar y gwahanol Bwyllgorau Herio Gwasanaethau a Grŵp Buddsoddi Strategol y Cyngor, ac ati. O dan yr eitem busnes sefydlog ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu, mae cynrychiolwyr wedi adrodd yn ôl i'r pwyllgorau ar drafodaethau, argymhellion a phenderfyniadau'r cyfarfodydd a fynychwyd ganddynt.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2019 i 2020

Adroddiadau Archwilio Cymru

Mewn blwyddyn mae Archwilio Cymru (yr hen Swyddfa Archwilio Cymru) yn cyhoeddi nifer o adroddiadau yn dangos sut mae awdurdodau lleol yn cyflenwi gwasanaethau ac yn addasu i gyfarwyddbau neu ofynion cenedlaethol newydd. Mae Craffu wedi cytuno i ystyried canfyddiadau'r adroddiadau hyn ac ymateb Sir Ddinbych i unrhyw argymhellion a wnaed gan yr archwilwyr. Yn ystod 2019/20 canolbwyntiodd Archwilio Cymru ei waith ar sut roedd cyrff cyhoeddus yn integreiddio nodau ac amcanion Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth gynllunio i gyflenwi gwasanaethau. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill i sicrhau fod prosiectau'n cael eu datblygu a gwasanaethau'n cael eu cyflwyno yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum nod Llesiant sy'n cael eu diffinio yn y Ddeddf.

Ar ddechrau 2020 bu'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn ystyried canfyddiadau dau o'r adroddiadau hyn gan Archwilio Cymru. Roedd y naill ar ddull y Cyngor o weithredu egwyddorion y Ddeddf yn ei weithgareddau rheoli risg llifogydd a'r llall yn archwilio a oedd y Cyngor yn ystyried gofynion y Ddeddf fel rhan o'i waith yn ailfodelu ei wasanaeth casglu gwastraff cartrefi. Roedd yr ail adroddiad hwn yn edrych ar a fyddai cynigion y Cyngor yn cefnogi nodau Llesiant y Ddeddf a blaenoriaeth y Cyngor ei hun o gyflwyno amgylchedd deniadol sy'n cael ei warchod. Wedi ystyried y ddau adroddiad ac ymateb y Cyngor i argymhellion Archwilio Cymru, roedd y Pwyllgor yn fodlon fod ymdrechion adeiladol yn cael eu gwneud i gyflawni'r holl waith a'r prosiectau yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy a nodau Llesiant y Ddeddf.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2019 i 2020

Ceisiadau am Graffu gan Breswylwyr

Ers nifer o flynyddoedd mae pwyllgorau craffu Sir Ddinbych yn gweithredu dull sydd wedi ennill ei blwyf sy'n galluogi preswylwyr i dynnu sylw Craffu at faterion sy'n peri pryder. Caiff hyn ei hwyluso drwy lenwi ffurflen gais am Graffu, sydd ar gael ar wefan y Cyngor neu gan y Cydlynnydd Craffu. Caiff ffurflenni cais am graffu eu cyflwyno i Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu, yn yr un ffordd â cheisiadau a dderbynnir gan gynghorwyr a swyddogion, i'w hystyried ac i benderfynu a yw'r testun yn addas i'w archwilio gan un o'r Pwyllgorau Craffu, neu a fyddai'n fwy buddiol pe bai'r mater yn cael ei ystyried gan fforwm arall.

Yn ystod 2019/20 derbyniwyd dau gais gan aelodau o'r cyhoedd i Craffu archwilio testun. Yn dilyn ystyriaeth gan Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu, aeth un cais ymlaen i gael ei archwilio gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau. Roedd y cais hwn yn ymdrin â'r broses a ddilynwyd i sefydlu Ardaloedd Gwella Busnes (AGB) yn y sir. Daeth Craffu i'r casgliad y dylai'r Cyngor gefnogi sefydlu Ardaloedd Gwella Busnes yn y sir pe bai unrhyw dref, ardal wledig neu grŵp busnes yn dymuno sefydlu un, ac y dylai'r gwersi a ddysgwyd gan brosesau ymgeisio am AGB yn y gorffennol gael eu rhannu ag unrhyw ymgeiswyr newydd am AGB er mwyn eu helpu gyda'r broses.

Derbyniwyd yr ail gais am graffu gan gorff a oedd yn cael trafferth ceisio cael mynediad i safle hanesyddol yn y sir. Gan fod y safle wedi'i leoli ar dir preifat heb hawliau mynediad cyhoeddus, penderfynodd Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu na fyddai'r mater yn elwa o gael craffu gan Bwyllgor. Serch hynny, fe roddon nhw gyngor i'r corff am lwybrau eraill posibl i'w dilyn er mwyn ceisio datrys y broblem. Ysgrifennodd y corff dan sylw yn ôl at y grŵp i ddiolch iddynt am ystyried eu cais ac am y cyngor defnyddiol a roddwyd, yr oeddent yn bwriadu ei ddilyn.

Mae pwyllgorau craffu'r Cyngor yn awyddus i drigolion gymryd diddordeb yn eu gwaith yn rheolaidd. Gallwch wneud hyn drwy fynychu cyfarfodydd wyneb yn wyneb, neu o bell drwy wefan y Cyngor, i wrando ar y trafodaethau a/neu awgrymu pynciau neu feysydd a allai

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2019 i 2020

elwa ar gael eu harchwilio'n fanwl gan y pwyllgorau. Ceir manylion ar sut i awgrymu pynciau i'r broses graffu ar y tudalennau canlynol:

Sut gall preswylwyr gymryd rhan yn y broses Graffu?

A fyddech chi'n hoffi i'r pwyllgorau craffu edrych ar fater penodol?

Gallwch godi'r mater i'w ystyried gan un o bwyllgorau craffu Cyngor Sir Ddinbych drwy lenwi'r Ffurflen Gais Craffu (trosodd). Mae Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y tri phwyllgor craffu yn cyfarfod yn achlysurol i benderfynu sut i ddyrannu gwaith y pwyllgorau craffu a byddant yn ystyried a ddylai unrhyw fater gael ei ystyried yn fanwl gan un o'r pwyllgorau, neu a ddylid gweithredu mewn ffordd arall. Gall hyn amrywio o gyfeirio mater i'r gwasanaeth sy'n gyfrifol, i graffu'n llawn ar y mater gan un o'r pwyllgorau craffu, neu hyd yn oed sefydlu 'grŵp gorchwyl a gorffen' arbenigol i archwilio ac adrodd ar fater penodol.

A fyddech chi'n hoffi mynychu cyfarfod un o'r pwyllgorau craffu?

Mae cyfarfodydd pwyllgorau craffu Cyngor Sir Ddinbych ar agor i'r cyhoedd fel arfer, ac mae preswylwyr Sir Ddinbych a'r cyhoedd yn cael eu hannog i fynychu. Mae rhestr o gyfarfodydd pwyllgorau craffu'r dyfodol a'r materion fydd yn cael eu trafod ar gael ar y dudalen 'Craffu' ar wefan y Cyngor.

Os hoffech chi gymryd rhan yn y drafodaeth ar fater penodol bydd angen i chi ofyn am ganiatâd Cadeirydd y pwyllgor (gweler y manylion isod).

Yn achlysurol, bydd rhai eitemau sy'n cael eu trafod gan bwyllgor yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol na ellir ei thrafod yn y fforwm cyhoeddus arferol. Bydd unrhyw eitemau o'r fath (y cyfeirir atynt fel 'Rhan Dau (II)') wedi'u nodi'n glir pan fydd papurau'r cyfarfod yn cael eu cyhoeddi, a bydd Cadeirydd y pwyllgor sy'n trafod eitem 'Rhan II' yn ei gwneud hi'n glir y dylai'r cyfarfod barhau heb bresenoldeb y wasg a'r cyhoedd er mwyn osgoi datgelu gwybodaeth gyfrinachol.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2019 i 2020

A fydddech chi'n hoffi siarad mewn pwyllgor ar fater sy'n cael ei drafod?

Mae croeso i aelodau o'r cyhoedd fynychu cyfarfodydd pwyllgorau craffu ond bydd yn rhaid gofyn am ganiatâd y Cadeirydd os ydynt am siarad neu wneud sylwadau mewn cyfarfod pwyllgor. Os hoffech chi gyflwyno tystiolaeth gerbron pwyllgor, neu annerch aelodau ar sail eich profiad mewn perthynas â phwnc dan sylw, cysylltwch â'r Cydlynnydd Craffu ymlaen llaw os gwelwch yn dda, er mwyn trefnu hyn ac er mwyn dosbarthu unrhyw waith papur i aelodau'r pwyllgor.

Yn achlysurol, gall y pwyllgorau craffu 'gyfethol' unigolyn gyda phrofiad neu arbenigedd penodol i ddod yn aelod dros dro o'r pwyllgor neu ofyn iddynt gyfrannu at ymchwiliad fel tyst arbenigol.

Cael yr wybodaeth ddiweddaraf am benderfyniadau pwyllgorau craffu Sir Ddinbych

Gallwch gael yr wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n cael ei drafod yng nghyfarfod pob pwyllgor craffu, yn ogystal ag unrhyw gyfarfod cyhoeddus arall y Cyngor, drwy ymweld â'r dudalen 'cyfarfodydd' ar wefan y Cyngor. Mae 'rhaglen waith' ddiweddaraf pob un o'r pwyllgorau craffu ar gael, ynghyd â'r papurau perthnasol ar gyfer pob cyfarfod, a bydd yr 24 agenda sydd wedi'i chadarnhau ar gyfer pob cyfarfod ar gael 5 - 7 diwrnod cyn dyddiad y cyfarfod fel arfer.

Mae cofnodion y cyfarfodydd craffu blaenorol a chofnod o'r penderfyniadau hefyd ar gael ar wefan y Cyngor. Gallwch gael rhagor o gyngor neu wybodaeth drwy gysylltu â'r Cydlynnydd Craffu, Rhian Evans rhian.evans@sirddinbych.gov.uk (01824 712554) neu'r Swyddog Democrataidd, Karen Evans, karen.a.evans@sirddinbych.gov.uk (01824 712575).

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2019 i 2020

Ffurflen Gais Craffu

A oes unrhyw fater yr hoffech i'r pwyllgorau craffu gymryd golwg arno?

Rhowch ddisgrifiad byr o'r pwnc yr hoffech i un o'r Pwyllgorau Craffu ei ystyried gan nodi pam rydych yn credu y dylai gael ei ystyried

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2019 i 2020

A fydddech chi'n hoffi mynychu cyfarfod Pwyllgor Craffu? **BYDDWN / NA FYDDWN**

Byddai'n ddefnyddiol petaech yn gallu rhoi'r manylion isod i ni er mwyn i ni ymateb i'ch cais

Eich enw:

Cyfeiriad:

Cod post:

E-bost:

Rhif ffôn:

Dychwelwch y ffurflen hon at:

Y Cydlynnydd Craffu

Adran Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

Neuadd y Sir

Ffordd Wynnstay

Rhuthun

LL15 1YN

neu e-bostiwch y ffurflen at democrataidd@sirddinbych.gov.uk